Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol/The National Centre for Learning Welsh

**Heol y Coleg**
**Caerfyrddin**
**SA31 3EP**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Cyd-destun

Ar 1 Awst 2016, trosglwyddwyd cyfrifoldeb llawn am y sector Cymraeg i Oedolion i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan). Mae'r Ganolfan yn gorff hyd braich wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i chartrefu ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Ailstrwythurodd y Ganolfan ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ledled Cymru gan sefydlu 11 darparwr Dysgu Cymraeg. Maer Ganolfan yn cyllido'r darparwyr Dysgu Cymraeg hyn i gynnig arlwy Cymraeg i oedolion o fewn eu cymunedau, ac ers 2018, mae Estyn wedi eu harolygu i gyd. Dros amser, mae nifer y dysgwyr unigryw wedi cynyddu gyda 33% mwy o ddysgwyr yn 2022-2023 i gymharu â'r ffigurau cenedlaethol cyntaf yn 2017-2018. Erbyn 2022-2023, roedd 16,905 o ddysgwyr unigryw. Mae nifer y gweithgareddau dysgu hefyd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod yr un cyfnod.

Ers 2017, mae'r Ganolfan yn derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen Cymraeg Gwaith sy'n anelu at gryfhau medrau dwyieithog cyflogeion yn y gweithle. Mae'r cynllun wedi darparu ei wasanaethau i dros 1,000 o gyflogwyr a hefyd wedi datblygu cynlluniau sectorau gwaith penodol, wedi'u teilwra. Maent yn cynnwys:

- Iechyd a Gofal
- Gofal Cymdeithasol
- Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar
- Chwaraeon

Ers 2022, mae'r Ganolfan hefyd wedi ymestyn ei gwaith i ddarparu gwasanaethau dysgu Cymraeg i bobl ifanc o 16-25 oed. Daw grant ychwanegol tuag at y gwaith hwn. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys cynlluniau i uwchsgilio'r gweithlu sy'n darparu hyfforddiant i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y gweithlu addysg statudol, athrawon dan hyfforddiant a'r gweithlu ôl-orfodol. Yn 2024, mae'r Ganolfan wedi denu grant ychwanegol o adran Addysg Llywodraeth Cymru i arwain ar raglen dysgu Cymraeg genedlaethol i'r gweithlu addysg statudol, ac yn cydweithio'n agos â'r cynllun sabothol i greu un rhaglen gydlynus.

## Crynodeb

Mae’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mewn cydweithrediad â darparwyr Dysgu Cymraeg a phartneriaid eraill, yn sicrhau bod ystod lawn o gyrsiau ar draws y lefelau sy’n darparu llwybrau dilyniant clir i ddysgwyr. Mae’r rhaglenni dysgu’n cael eu cynllunio a’u haddasu’n fwriadus er mwyn ymateb i ddulliau sydd fwyaf addas i ddyheadau ac argaeledd dysgwyr, er enghraifft cyrsiau cyfunol, preswyl a hunanastudio o fewn y ddarpariaeth prif ffrwd a sectorau gwaith penodol.

Un o ddatblygiadau nodedig y Ganolfan yw’r cynnydd yn yr arlwy cyfoethog o ddarpariaeth sector-benodol sy’n cefnogi dysgwyr i gael mynediad hygyrch at wersi fel rhan allweddol o’u gwaith dydd i ddydd. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddefnyddio eu medrau llafaredd mewn gweithgareddau niferus ac amrywiol y tu allan i wersi ffurfiol.

Un o rinweddau nodedig y Ganolfan yw’r modd mae arweinwyr yn cydweithio’n strategol i gynllunio’r ddarpariaeth a chyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg mewn cydweithrediad arloesol ag ystod o bartneriaid gwerthfawr.

Dros amser, mae’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn esblygu o fod yn ddarparwr cyrsiau a gweithgareddau Cymraeg i oedolion yn unig i fod yn ddylanwadwr ieithyddol. Mae’n ganolog i fentrau niferus i normaleiddio defnydd o’r iaith ymhlith dysgwyr a siaradwyr anfoddog o bob oedran, yn gymunedol ac o fewn sectorau allweddol.

Mae rheolwyr yn anelu’n uchelgeisiol at sicrhau gwelliant parhaus yn unol â’u dyhead i esblygu eu prosesau er budd safonau a lles dysgwyr. Maent yn gweithredu’n gadarn i reoli perfformiad darparwyr Dysgu Cymraeg ac yn fodlon gwneud penderfyniadau anodd pan fo angen er lles y dysgwyr ac i gynnal safon y ddarpariaeth.

Mae’r Ganolfan yn rheoli ei chyllid yn ofalus ac yn dyrannu cyfalaf i ddarparwyr yn unol â blaenoriaethau clir a chynllunio manwl. Er nad yw’r grant craidd wedi cynyddu ers 2016, mae’r Ganolfan yn parhau i sicrhau darpariaeth o safon uchel a chanlyniadau llwyddiannus o ran cyrhaeddiad dysgwyr ar bob lefel.

Mae’r nod i sicrhau gwerth am arian yn cael ei gydbwyso â dyhead i fod yn gynhwysol. Golyga hyn fod cost lawn y cwrs yn cael ei chadw mor isel â phosibl, ac mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn derbyn gostyngiad mewn ffioedd neu’n derbyn gwersi am ddim.

## Argymhellion

A1 Parhau i ymestyn a rhannu arbenigedd y sector Dysgu Cymraeg o ran addysgeg a chaffael ail iaith i sectorau perthnasol eraill i gefnogi nod Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

A2 Parhau i arloesi trwy hwyluso gweithgareddau cynllunio ieithyddol sy'n integreiddio siaradwyr newydd ac anfoddog mewn mentrau i normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau ac yn eu gwaith


## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas ag ehangu cyfranogiad a sicrhau bod gan bawb yng Nghymru gyfle i ddysgu'r iaith, beth bynnag fo'u cefndir; yn ogystal ag astudiaeth achos arall ar sut mae'r sector Dysgu Cymraeg yn dylanwadu ar addysgeg a chaffael ail iaith mewn sectorau eraill yng Nghymru a thu hwnt, i'w lledaenu ar wefan Estyn.


## Prif ganfyddiadau

### Crynodeb o ddeilliannau arolygu darparwyr Dysgu Cymraeg


### Safonau





### Lles ac agweddau at ddysgu





### Addysgu a phrofiadau dysgu




**Gofal, cymorth ac arweiniad**




**Arweinyddiaeth a rheolaeth**




Yn ystod y cylch arolygu, arolygwyd pob un darparwr Dysgu Cymraeg. Ers arolygiad diwethaf y Ganolfan yn Ionawr 2021, arolygwyd saith o'r rhain. Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau arolygu'r saith darparwr. Mae pob arolygiad ers 2021 wedi cynnwys elfen o arsylwi darpariaeth ar lein. Dewiswyd samplau arsylwi ar sail yr hyn a gynigiwyd i ddysgwyr er mwyn cael argraff gytbwys ac ystyrlon o safonau dysgu ac addysgu.

Nid yw Estyn yn ffafrio unrhyw ddull neu fodd o ddysgu yn benodol. Rydym yn defnyddio'r un meini prawf i werthuso dysgu ac addysgu, beth bynnag fo'r cyfrwng addysgu, a dilynwyd yr egwyddorion hyn wrth arolygu'r saith darparwr.

Roedd pob maes arolygu yn dda neu'n well mewn pump allan o'r saith darparwr a arolygwyd. Roedd y mwyafrif o feysydd arolygu mewn dau ddarparwr yn ddigonol neu'n is.

Mae llawer o ddysgwyr ar draws y darparwyr yn gwneud cynnydd cadarn iawn wrth ddatblygu eu holl fedrau Cymraeg. Cryfder amlwg y sector yw'r ffordd mae'n cynhyrchu siaradwyr newydd sy'n datblygu eu llafaredd yn llwyddiannus, ble bynnag

y maent ar y continwwm iaith. Maent yn siarad yn gynyddol ddigymell â'i gilydd a gyda'u tiwtoriaid, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd.

Mae dysgwyr yn gwneud y cynnydd gorau ar gyrsiau dwys pan fydd cyfle ganddynt i drochi yn yr iaith yn llwyr. Mae'r dysgwyr hyn yn llwyddo i wella'n sylweddol o ran rhugldder a hyder, beth bynnag fo'u lefel, mewn cyfnod byr.

Mae llawer o ddysgwyr yn awyddus iawn i ddefnyddio eu medrau newydd y tu allan i'w gwersi a gwelir enghreifftiau niferus o ddysgwyr sy'n mynychu digwyddiadau, ymuno â gweithgareddau a chymdeithasau gyda'r nod pendant o gymathu fel siaradwyr newydd â rhwydweithiau Cymraeg ac i ddefnyddio'r iaith gyda'r teulu, ffrindiau neu yn y gwaith. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrechion y darparwyr i drefnu a hwyluso gweithgareddau llu i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac amrywiol.

Yn gyffredinol, mae agweddau dysgwyr at eu dysgu yn hynod gadarnhaol. Barnwyd bod y maes arolygu 'Lles ac agweddau at ddysgu' yn rhagorol mewn pump o'r saith darparwr. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau eu dysgu'n fawr ac mae eu brwdfrydedd yn heintus.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn gwneud defnydd hynod effeithiol o'r iaith darged yn ystod gwersi ac yn hwyluso'r dysgu yn fedrus i gymell dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg heb ofn gwneud gwallau. Un o nodweddion arbennig yr addysgu gorau yw'r modd mae tiwtoriaid yn addasu gweithgareddau dysgu i gynnwys iaith gynhenid a thafodiaith gyfoethog y cymunedau mae'r dysgwyr yn aelodau ohonynt.

Yn gyffredinol, mae gan diwtoriaid ar draws yr ystod lefelau a sectorau ddisgwyliadau uchel o'u dysgwyr; maent yn credu yn ngallu'r dysgwyr i ddod yn siaradwyr ac mae'r gred hon yn meithrin hunanhyder y dysgwyr. Fodd bynnag, yn yr ychydig ddarparwyr lle barnwyd bod yr addysgu a phrofiadau dysgu yn 'ddigonol ac angen gwella' nid yw lleiafrif o diwtoriaid yn ymestyn dysgwyr yn ddigonol ac nid yw eu disgwyliadau o'r dysgwyr yn ddigon uchel. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith negyddol ar safonau'r dysgwyr a'u hawydd i fanteisio ar y cyfleoedd gwerthfawr a drefnir iddynt ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'w gwersi.

Mae'r berthynas rhwng bron pob tiwtor â'u dysgwyr yn un gefnogol a chlòs ac, o ganlyniad, mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn derbyn cymorth ychwanegol priodol. Mae'r maes arolygu 'Gofal, Cymorth ac arweiniad' yn dda neu'n well ym mhob darparwr, ac yn rhagorol mewn pump.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well mewn llawer o'r darparwyr, gyda phedwar ohonynt yn rhagorol ar gyfer yr agwedd hon o'u gwaith. Yn gyffredinol, mae uwch reolwyr ac arweinwyr yn gosod cyfeiriad strategol clir sy'n hybu nodau ac amcanion y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn llwyddiannus. Rhoddwyd barn grynodol 'anfoddhaol ac angen gwella ar frys' i un darparwr ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth.

Yn yr achosion gorau, mae darparwyr yn cyflawni swyddogaeth hynod effeithiol a phwysig o fewn gwasanaethau ehangach eu sefydliadau cartref, gan ddylanwadu'n uniongyrchol a chadarnhaol ar ddatblygiadau ieithyddol y sefydliadau hynny. Mae

gan ddarparwyr sy'n arddel addysgeg effeithiol weithdrefnau hunanwerthuso cadarn sy'n amlygu cryfderau a meysydd i'w gwella yn glir. Mae'r wybodaeth hon yn arwain at gynlluniau datblygu a gwella effeithiol, gan gynnwys dysgu proffesiynol, sy'n targedu elfennau sydd angen eu gwella yn fwriadus. Fodd bynnag, mewn darparwyr sydd ag arweinyddiaeth ddigonol neu anfoddhaol nid yw trefniadau monitro, y defnydd o ddata na'r prosesau hunanwerthuso yn ddigon miniog neu werthusol i fynd i'r afael ag agweddau pwysig sydd angen eu gwella. O ganlyniad nid yw'r arlwy dysgu proffesiynol yn ddigon bwriadus i wella arferion dysgu ac addysgu.

Pwrpas y sector yw creu siaradwyr newydd ac mae darparwyr yn glir ynglŷn â'u cyfeiriad strategol a'r cyfraniad pwysig sydd ganddynt i'w wneud i bolisi Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Cynllunio darpariaeth**

Un o gryfderau nodedig y Ganolfan yw'r modd mae arweinwyr wedi ymateb yn rhagweithiol a chreadigol wrth gefnogi darparwyr i gynllunio ystod eang a chynhwysol o gyrsiau er mwyn diwallu anghenion dysgwyr. Gwneir defnydd effeithiol o'r Canllawiau Rhaglenni Dysgu i gynllunio rhaglen ar y platfform digidol sy'n ymateb yn llwyddiannus i dueddiadau dysgu gwahanol dysgwyr. Maent yn defnyddio'r grant craidd yn fedrus wrth gynllunio rhaglenni, a thros amser mae arweinwyr wedi defnyddio grantiau ychwanegol yn hynod lwyddiannus i ddarparu ystod ehangach o ddarpariaeth sectorol i ennyn a chymell dysgwyr mewn ystod amrywiol o sefyllfaoedd hamdden a gwaith. Mae'r rhaglenni hyn, er enghraifft rhaglenni Cymraeg Gwaith a Chymraeg yn y Cartref, wedi datblygu'n gyflym ac maent yn hynod werthfawr wrth ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr, fel ei gilydd. O ganlyniad, mae'r Ganolfan a'r darparwyr yn cydweithio'n ddiwyd i gynllunio arlwy eang o gyrsiau dysgu.

Darperir ystod lawn o gyrsiau ar draws y lefelau sy'n darparu llwybrau dilyniant clir i ddysgwyr er mwyn eu cefnogi i barhau â'u taith iaith. Mae'r rhaglenni dysgu'n cael eu cynllunio a'u haddasu'n fwriadus er mwyn ymateb i ddulliau sydd fwyaf addas i ddyheadau ac argaeledd dysgwyr, er enghraifft cyrsiau cyfunol, preswyl a hunanastudio o fewn y ddarpariaeth prif ffrwd a sectorol. Mae cyfanswm y dysgwyr sy'n dymuno dysgu mewn rhaglenni dwys dan arweiniad tiwtor wedi cynyddu'n gyson dros amser. Mae'r Ganolfan yn ymateb yn rhagweithiol i ddymuniadau dysgwyr yn fedrus ac yn sicrhau hygyrchedd iddynt ddysgu, er enghraifft wrth iddynt gefnogi tiwtoriaid i gyflwyno gwersi mewn lleoliadau cymunedol neu wrth ddarparu gwersi ar-lein.

Mae gwersi prif ffrwd yn elfen hanfodol o waith y Ganolfan ac mae'r dysgwyr yn eu cymunedau wrth wraidd y ddarpariaeth. Mae'r cyfarwyddwyr yn cefnogi rheolwyr yn fuddiol ac yn rhannu arweiniad gwerthfawr wrth iddynt lunio'r rhaglenni. Trwy gyfarfodydd rheolaidd, darperir cyfleoedd defnyddiol i randdeiliaid gyfrannu at gynlluniau'r Ganolfan wrth iddynt ymateb i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Defnyddir ystod o dystiolaeth werthfawr wrth werthuso'r rhaglenni a chaiff ei hadolygu a'i mireinio'n ystyrlon.

Un o ddatblygiadau mwyaf nodedig y Ganolfan yw'r arlwy cyfoethog o ddarpariaeth sectorol sy'n cefnogi dysgwyr i gael mynediad hygyrch at wersi, er enghraifft fel rhan allweddol o'u gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r Cynllun Cymraeg Gwaith wedi esblygu ar raddfa gyflym ac mae'n diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn fuddiol iawn.

Er enghraifft, wrth ymateb i bolisi Llywodraeth Cymru yn y sector iechyd megis Mwy na Geiriau, mae tiwtor wedi ei benodi ymhob bwrdd iechyd yng Nghymru er mwyn cefnogi'r gweithlu iechyd a gofal i ddarparu gwasanaeth i gleifion yn Gymraeg. Yn ogystal, mae'r rhaglenni Cymraeg yn y Cartref a chyrsiau a gomisiynir megis Clwb Cwtsh y Mudiad Meithrin wedi datblygu i fod yn ffynhonnell werthfawr i rieni a gofalwyr gael mynediad at wersi sy'n rhoi blas iddynt o'r Gymraeg. Mae hyn yn ei dro yn eu hysbrydoli yn aml at ddechrau defnyddio'r Gymraeg gyda phlant ac at ddysgu Cymraeg mewn gwersi prif ffrwd. Yn yr un modd, mae partneriaeth rhwng y Mudiad Meithrin a'r Ganolfan o'r enw Camau yn darparu cyrsiau ar gyfer y gweithlu addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Mae'r Ganolfan wedi rhoi blaenoriaeth benodol i ymgysylltu â grwpiau gwahanol o ddysgwyr, er enghraifft dysgwyr sy'n cael eu cydnabod fel ceiswyr lloches a ffoaduriaid trwy'r defnydd o'r cynllun Croeso i Bawb. Yn ddiweddar, mae Cynllun Gwrth Hiliol wedi ei gyflwyno gyda'r nod o ddenu mwy o ddysgwyr o gefndiroedd amrywiol i fynychu gwersi Cymraeg. Mae'r Ganolfan yn rhoi gostyngiadau pris hael i ddysgwyr prif ffrwd, ac o ganlyniad, ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n talu'r ffi lawn. Yn ogystal, mae'r byrddau cwmni ac ymgynghorol wedi dilysu polisi o gynnig cyrsiau am ddim i bobl sydd ar fudd-daliadau penodol.

Trwy gydweithio bwriadus â phartneriaid allweddol, mae'r Ganolfan yn cynllunio'n strategol a chydlynus i atgyfnerthu gwaith ei gilydd, er enghraifft gyda Mudiad Meithrin a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn fwyaf diweddar, mae'r ddarpariaeth i gefnogi dysgwyr ifanc fel rhan o'r ddarpariaeth Ymlaen a'r Dysgu wedi ei chyflwyno ac yn cael effaith gadarn ar ddatblygu agweddau pobl ifanc at ddysgu Cymraeg a'u cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau.

Mae'r Ganolfan yn flaengar yn ei defnydd o ymchwil i lunio darpariaeth. Comisiynwyd ymchwil ar gyflawniadau disgyblion ysgol sy'n sefyll TGAU Cymraeg Ail Iaith. Dangosodd yr adroddiad 'Adnabod y Seiliau' fod disgyblion TGAU yn cyrraedd lefel ar fframwaith rhyngwladol cydnabyddedig (CEFR) o A1-A2 erbyn cyfnod allweddol pedwar. O ganlyniad, mae disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol tri mewn pedair ysgol uwchradd yn dilyn cwricwlwm lefel Mynediad y Ganolfan ar gyfer dosbarthiadau penodol. Cyflwynir methodolegau sydd wedi eu seilio ar ddulliau caffael iaith sector Cymraeg i Oedolion i'r disgyblion gan eu cefnogi i sefyll arholiad llafar CBAC wedi'i addasu i gyd-destun pobl ifanc. Mae hyn yn arloesol o ran datblygu'r cysyniad o greu un continwwm iaith ar gyfer dysgwyr o bob lefel ac oedran. Yn ogystal, mae'r Ganolfan yn parhau i feithrin perthynas fuddiol â mudiadau a gwasanaethau ieuenctid fel yr Urdd gan ariannu tiwtor sy'n cynnig hyfforddiant i staff.

Mae arweinwyr yn cydgynllunio cyfleoedd buddiol i ddysgwyr siarad Cymraeg mewn gweithgareddau y tu allan i wersi ffurfiol o fewn eu cymunedau. Er enghraifft, trwy gydweithio gwerthfawr â Mentrau Iaith, darperir cyfleodd i ddysgwyr a siaradwyr anfoddog siarad Cymraeg yn y gymuned. Yn ddiweddar, cyflwynwyd y Rhaglen Cefnogi Dysgwyr er mwyn ymgorffori'r gweithgareddau hyn at ei gilydd. Er enghraifft, y nod yw trefnu mwy o weithgareddau preswyl cenedlaethol er mwyn cefnogi grwpiau o ddysgwyr i fagu hyder a dod yn siaradwyr gweithredol, fel wrth drefnu cwrs preswyl yng Nghaerfyrddin yn ystod gŵyl y dref i ddysgwyr rhwng 21 a 25 oed. Trwy'r cyfleoedd hyn, gan gynnwys y Cynllun Siarad gwerthfawr, mae dysgwyr yn magu

hyder i roi cynnig ar siarad Cymraeg gyda siaradwyr rhugl sy'n cyfrannu'n gadarn at y broses o gymathu i'w cymdeithas leol.

Wrth i wasanaeth y Ganolfan esblygu, mae arweinwyr wedi buddsoddi'n helaeth mewn darpariaeth ddigidol er mwyn cefnogi rheolwyr a dysgwyr. Yn ogystal, mae'r platfform digidol wedi cyfoethogi'r ddarpariaeth addysgu a dysgu gydag ystod eang o adnoddau gweledol a rhyngweithiol. Mae'r adnoddau hyn yn hynod fuddiol i diwtoriaid eu defnyddio i amrywio'r dulliau dysgu.

Mae'r Ganolfan yn parhau'n briodol i fonitro bod darparwyr yn gweithredu trefniadau diogelwch trylwyr trwy bolisïau a gweithdrefnau i gadw dysgwyr yn ddiogel. Mae hyn wedi cael ei ddatblygu ymhellach wrth i ddarpariaeth i bobl ifanc ehangu.

### Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr

Mae perfformiad llwyddiannus y Ganolfan a'r rhan fwyaf o ddarparwyr fel ei gilydd yn cyfrannu'n gadarn at gyflawni targedau strategaeth Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Er enghraifft, mae'r Ganolfan wedi parhau i gynyddu nifer y dysgwyr yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac mae cynnydd o 33% ers 2017-2018 pan gyhoeddwyd y ffigurau cenedlaethol cyntaf.

Mae gan y prif weithredwr ffocws clir ar welliant parhaus a gweledigaeth bellgyrhaeddol. Mae hi wedi cymryd camau pendant i ad-drefnu'r strwythur staffio a chreu cyfarwyddiaethau newydd sy'n adlewyrchu ystod gwaith ehangach y Ganolfan. Ar y cyd â rheolwyr y darparwyr, mae uwch swyddogion y Ganolfan yn sicrhau bod y dysgwyr yn greiddiol i bopeth a gyflawnir ganddynt. Caiff y nodau a'r blaenoriaethau eu trefnu mewn ystod o bolisïau a chynlluniau manwl a'u cyfathrebu'n llwyddiannus i'w rhanddeiliad. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr holl bartneriaid ddealltwriaeth gytûn o'r hyn sy'n cael ei flaenoriaethu a'i weithredu'n fwriadus ganddynt, gyda'r nod o gefnogi dysgwyr i ymroi a chyflawni hyd orau eu gallu wrth ddysgu Cymraeg. Mae arweinwyr yn hyderus i addasu ac esblygu unrhyw agwedd o'r gwasanaeth gan weithredu'n greadigol i arloesi'n barhaus. Trwy hyn, maent yn ymateb i fylchau yn y ddarpariaeth sy'n arwain at gynllunio ieithyddol ffyniannus ym mhob agwedd o'r gwaith.

Mae'r bartneriaeth rhwng y Ganolfan â'r darparwyr yn gadarn. Mae'r cyfathrebu cyson a'r cydweithio effeithiol, er enghraifft wrth gynllunio rhaglenni dysgu, monitro presenoldeb a gwerthuso cynnydd dysgwyr, yn cyfrannu'n effeithiol at gynnig darpariaeth gynhwysfawr. Mae staff yn cefnogi darparwyr i sicrhau bod dysgwyr ar wahanol lefelau a mathau o gyrsiau yn gwneud cynnydd priodol. Mae ganddynt drosolwg o holl weithgarwch y darparwyr ac yn cefnogi a herio rheolwyr, fel y bo'n briodol.

Mae disgwyliadau uchel arweinwyr a'r ymdeimlad o gydweithio fel aelodau o dîm yn sicrhau bod diwylliant o ddatblygu'r Ganolfan ymhellach yn cael ei feithrin fel rhan annatod o'r weledigaeth. O ganlyniad, maent yn cyfrannu'n rhagweithiol wrth ymateb i heriau am unrhyw agwedd o'r gwasanaeth.

Mae cyfarwyddwyr yn gweithredu strategaethau o fewn cynllun strategaeth farchnata a chyfathrebu yn fedrus. Gweithredir strategaethau sy'n seiliedig ar ddeilliannau ymchwil a llais y dysgwyr yn effeithiol. Er enghraifft, yn dilyn ymchwil i'r farchnad o

ran rhesymau pobl ifanc dros ddysgu'r Gymraeg, lluniwyd ymgyrch farchnata aml-blatfform yn targedu pobl ifanc rhwng 16-25 oed yn benodol. Defnyddiwyd llwyfannau priodol ac apelgar i'w targedu, gan ddefnyddio dylanwadwyr addas i farchnata manteision dysgu Cymraeg. O ganlyniad i'r ymgyrch farchnata hon, gwelwyd twf o 9% yn y bobl ifanc rhwng 16-25 oed wnaeth fynychu gwersi Dysgu Cymraeg yn 2022-23.

Trwy gydweithio ag Addysg Oedolion Cymru, mae cyrsiau WSOL (Welsh for Speakers of Other Languages) wedi eu cyflwyno i ddysgwyr ESOL (English for Speakers of Other Languages). Mae grant penodol arall wedi ei ddarparu i gynnal cyrsiau Cymraeg i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Yn ogystal, mae unedau Dysgu Cymraeg ar gael mewn Cantoneg, Arabeg Syria, Pashto, Ffarsi ac Wcreineg. Mae'r Ganolfan yn cynnig cefnogaeth iddynt bontio o'r rhaglenni dysgu Cymraeg hyn i gyrsiau prif ffrwd y Ganolfan.

Mae'r gefnogaeth gyllidol i ddysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi yn ymdrechu i sicrhau nad oes rhwystrau i unrhyw aelod o gymdeithas rhag dysgu Cymraeg. Er enghraifft, darperir gofal plant am ddim i rieni a gofalwyr sy'n cyrraedd trothwy budd-daliadau mewn ardaloedd penodol ledled Cymru er mwyn eu cefnogi i gymryd rhan mewn sesiynau Cymraeg. Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnig, trwy gronfa arbennig, arian i brynu offer technegol, cwrslyfrau, costau teithio a gofal plant, yn ogystal â chyfrannu at gostau aros cyrsiau haf.

Mae arweinwyr yn cefnogi rheolwyr a thiwtoriaid yn fedrus i ddiwallu anghenion dysgu penodol dysgwyr. Er enghraifft, maent yn darparu arlwy o gyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol i diwtoriaid trwy'r Academi i'w cefnogi i ddiwallu anghenion lles a dysgu dysgwyr. Mae hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn hygyrch a chynhwysol.

Un o rinweddau nodedig y Ganolfan yw'r modd mae arweinwyr yn cydweithio'n strategol i gynllunio'r ddarpariaeth mewn cydweithrediad arloesol ag ystod o bartneriaid gwerthfawr. Trwy gynllunio'n gydlynus, caiff profiad dysgwyr o ddysgu'r Gymraeg mewn amrywiol gyd-destunau difyr ei gyfoethogi wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol a chenedlaethol sy'n eu cyflwyno'n fedrus i hanes a diwylliant Cymru. Er enghraifft, mae'r Ganolfan yn cydweithio'n llwyddiannus i gefnogi dysgwyr ifanc i ddysgu Cymraeg ac ymgysylltu â cherddoriaeth Gymraeg wrth ddarparu gwybodaeth am Faes B a diwylliant cyfoes Cymru mewn ysgolion a cholegau fel rhan o gynlluniau'r Eisteddfod Genedlaethol. Caiff gwersi dysgu Cymraeg difyr eu trefnu i'r dysgwyr ifanc gyda'r nod o drawsnewid eu hagweddau at ddysgu'r iaith gan ddefnyddio eu Cymraeg mewn ymweliad â'r Eisteddfod. Yn ogystal, mae staff y cyngor sir ble cynhelir yr Ŵyl eleni a'r flwyddyn nesaf yn cael profiad o fynychu cwrs preswyl yn Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn er mwyn eu cefnogi i weithio a siarad Cymraeg yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Er mwyn cefnogi medrau darllen dysgwyr, mae'r Ganolfan yn parhau i gydweithio'n llwyddiannus â Chyngor Llyfrau Cymru sy'n comisiynu cyfres o lyfrau 'Amdani' sy'n helpu dysgwyr i fwynhau darllen llyfrau ffuglen diddorol. Erbyn hyn, mae sawl dysgwr wedi awduro llyfrau yn y gyfres.

Mae gan y Ganolfan weithdrefnau addas i fonitro darpariaeth sydd wedi ei his-gontractio, er enghraifft gyda sefydliadau sy'n darparu ar gyfer sectorau penodol.

Mae bwrdd ymgynghorol a bwrdd y cwmni yn cyflawni rôl allweddol wrth gynnig cymorth a chyngor defnyddiol ar ystod eang o faterion. Maent yn herio'n gadarn gan graffu ar benderfyniadau rheolwyr y Ganolfan. Mae aelodau'r ddau fwrdd yn meddu ar arbenigeddau gwerthfawr a phrofiad helaeth sydd o fudd sylweddol i'r Ganolfan. Er enghraifft, roedd aelod o'r bwrdd ymgynghorol yn hwyluso derbyn cyngor ac arweiniad i'r Ganolfan wrth iddynt gynllunio i greu cyrsiau i athrawon ymarfer corff mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae'r bwrdd ymgynghorol wedi cyfrannu'n ddefnyddiol at ddatblygu dulliau ansoddol i ddadansoddi adborth gan ddysgwyr. Mae hefyd wedi cynnig her a mewnbynnu'n ystyrlon i drafodaethau ar newid y strwythur sicrhau ansawdd a datblygu hyfforddiant trwy'r Academi.

Mae bwrdd y cwmni yn craffu'n drylwyr ar faterion cyllidol yn ogystal â dadansoddi data a thrafod gwerth am arian. At ei gilydd, mae'r ddau fwrdd yn cyfrannu'n gadarnhaol at atebolrwydd rheolwyr a llywodraethiant cadarn.

**Prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella**

Mae arweinwyr a rheolwyr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn adnabod eu sector yn drylwyr iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o gryfderau eu darparwyr a'r hyn sydd angen ei wella. Mae fframwaith ansawdd cenedlaethol y sector yn ganolog i weithgareddau ansawdd y sector. Er bod y system bresennol yn llwyddo i sicrhau ansawdd trwy'r sector, mae rheolwyr yn anelu'n uchelgeisiol at sicrhau gwelliant parhaus yn unol â'u dyhead i esblygu eu prosesau er budd safonau a lles dysgwyr. O ganlyniad, maent wedi diwygio'r strwythur ansawdd a chreu fframwaith newydd iddyn nhw eu hunain ac i'r darparwyr fydd yn cynnig her ychwanegol yn ogystal ag adlewyrchu y newid yn ystod gwaith y Ganolfan, gan gynnwys darpariaeth sylweddol fel Cymraeg Gwaith ac Ymlaen gyda'r Dysgu. Maent wedi ychwanegu haen werthfawr arall o graffu gan sefydlu panel ansawdd gydag arbenigwyr allanol profiadol sy'n craffu ar ansawdd ar draws yr holl gyfarwyddiaethau gan argymell newidiadau, pan fo angen.

Mae'r broses arsylwi dysgu ac addysgu yn drwyadl, ac yn effeithiol o ran mesur safonau ar draws y darparwyr Dysgu Cymraeg. Mae staff sy'n arwain ar ansawdd yn darparu hyfforddiant gwerthfawr i arsylwyr o bob darparwr ac yn safoni eu gwaith yn briodol. Yn ogystal, maent yn arsylwi'r darparwyr eu hunain, a phan fydd pryderon ganddynt am ansawdd dysgu ac addysgu, maent yn ymgymryd ag arsylwi helaeth yn y darparwr penodol gan roi cyngor a chymorth defnyddiol ar sut i wella. Mae'r Ganolfan wedi ymateb i her dau ddarparwr nad oeddent yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig neu'n arddel arfer orau'r sector yn briodol. Mae rheolwyr yn gweithredu'n gadarn i reoli perfformiad darparwyr Dysgu Cymraeg ac yn fodlon gwneud penderfyniadau anodd, pan fo angen, er lles y dysgwyr ac i gynnal safon y ddarpariaeth.

Yn ychwanegol at hyn, mae arweinwyr wedi cyflwyno cynllun dadansoddi data newydd gan gynnwys dashfwrdd sy'n crynhoi data yn ddefnyddiol i reolwyr darparwyr Dysgu Cymraeg. Mae cael mynediad i ddata byw, sydd wedi eu dadansoddi, yn hwyluso'n sylweddol y defnydd o ddata er mwyn gwneud penderfyniadau cynllunio a gweithredu ar sail tystiolaeth ddilys a meintiol. Mae hefyd yn hynod ddefnyddiol o ran

galluogi darparwyr i olrhain hanes dysgwyr a'u gweithgareddau dysgu ers iddynt gofrestru ag unrhyw ddarpariaeth Dysgu Cymraeg.

Mae barn rhanddeiliaid allweddol yn chware rôl bwysig mewn prosesau gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella. Mae'r Ganolfan yn rhoi'r dysgwyr yn ganolog i'w holl waith ac mae gwrando ar lais y dysgwyr yn lleol ac yn genedlaethol yn gryfder amlwg drwy'r sector. Mae adborth dysgwyr trwy holiaduron cenedlaethol yn gadarnhaol iawn, ar y cyfan. Er hynny, mae rheolwyr yn awyddus i barhau i wella ar unrhyw agweddau pan fo'n bosibl, trwy gywain barn mewn grwpiau ffocws ar themâu fel cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae enghreifftiau niferus o ymateb yn gadarnhaol i lais y dysgwr. Er enghraifft, trwy gynnwys gwybodaeth am hanes yr iaith mewn cwrslyfrau lefel mynediad a sylfaen a chreu trawsgrifiadau o sgriptiau gweithgareddau gwrando Robin Radio.

Mae lles dysgwyr yn flaenoriaeth i'r Ganolfan a chaiff hyn ei adlewyrchu'n amlwg yn arolygiadau darparwyr unigol. Mae arweinwyr y Ganolfan yn monitro lles a gofal dysgwyr yn ofalus iawn, gan gynnig hyfforddiant priodol i'r sector cyfan.

Yn ogystal, maent yn arddel eu harferion cadarnhaol eu hunain trwy ystyried anghenion pob dysgwr yn gyfartal. Er enghraifft, trwy ddarparu gweithgareddau gwrando mwy hygyrch i ddysgwyr sydd â nam ar eu clyw gan gynnig fersiynau heb gerddoriaeth gefndirol.

Mae creu a chynnal partneriaethau blaengar gyda'r nod o wella ystod a safon y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr yn un o gryfderau amlwg y Ganolfan. Mae'r Ganolfan yn rhagweithiol wrth greu cyfleoedd i ddysgwyr ddod yn siaradwyr rhugl gweithredol. Un enghraifft nodedig yw'r bartneriaeth â Mentrau Iaith Cymru a'r cynllun 'Hapus i Siarad' sy'n annog busnesau mewn ardal ddaearyddol benodol i arddangos arwyddion sy'n croesawu siaradwyr profiadol a newydd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda nhw.

Dros amser, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn esblygu o fod yn ddarparwr cyrsiau a gweithgareddau Cymraeg i ddysgwyr yn unig i fod yn ddylanwadwr ieithyddol. Mae'n ganolog i fentrau niferus i normaleiddio defnydd o'r iaith ymhlith dysgwyr a siaradwyr anfoddog o bob oedran yn gymunedol ac o fewn sectorau allweddol. Mae partneriaid yn ystyried y Ganolfan yn gonglfaen yr ymdrechion arloesol hyn ac yn ei gweld yn fanteisiol bod un sefydliad yn meddu ar yr arbenigedd addysgol a'r weledigaeth strategol i gynllunio'n ieithyddol yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr y Ganolfan yn ymateb yn effeithiol iawn i argymhellion arolygiadau darparwyr unigol Dysgu Cymraeg yn ogystal ag argymhellion a roddwyd i'r Ganolfan ei hun yn ystod arolygiad o'i gwaith yn 2021. Prif argymhelliad yr arolygiad hwnnw oedd i rannu methodoleg addysgu a chaffael iaith lwyddiannus gyda sectorau perthnasol eraill i gefnogi nod Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg gweithredol erbyn 2050. Mae'r nod hwnnw wedi'i ymgorffori yng ngwaith y Ganolfan erbyn hyn, er enghraifft wrth ymgyrraedd at sectorau allweddol, fel hyfforddiant i'r gweithlu addysg.

Mae’r Ganolfan hefyd yn arwain a monitro cynnydd darparwyr yn erbyn eu hargymhellion yn ofalus. Mae’r cynlluniau gweithredu yn glir a phwrpasol ac yn dyrannu cyfrifoldebau’n addas gyda thargedau mesuradwy ac amserlenni priodol. Mae effaith hyn yn cael ei monitro a’i gwerthuso’n werthfawr. Er enghraifft, mewn ymateb i argymhelliad i ddarparwr ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu dysgwyr ymhellach, cyflwynwyd strategaethau ac arweiniad ar sut i ymgorffori rhagor o dasgau darllen ac ysgrifennu i gyfoethogi’r dysgu a herio dysgwyr yn ogystal â datblygiad proffesiynol i diwtoriaid. Yn yr un modd, yn dilyn argymhelliad i ddarparwr gysoni’r arferion da o gefnogi dysgwyr i wella eu hynganu, crëwyd unedau hyfforddiant cenedlaethol i diwtoriaid a chynhaliwyd gweithdai gydag arbenigwyr prifysgol ar ynganu yn y Gymraeg.

Ers arolygiad diwethaf y Ganolfan, mae rheolwyr ac arweinwyr wedi cryfhau eu prosesau sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer gwella gan fod yn rhagweithiol yn ogystal ag adweithiol. Mae eu hawydd i sicrhau gwelliant parhaus yn amlygu ei hun yn y safonau uchel a welir yn y rhan fwyaf o’r ddarpariaeth a’u parodrwydd i adnabod a mynd i’r afael yn bwrpasol ag unrhyw wendidau yn y ddarpariaeth ar draws Cymru.

### Dysgu proffesiynol

Mae’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn trefnu ac yn darparu ystod gynhwysfawr o brofiadau dysgu proffesiynol ar gyfer eu gweithlu. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y sector yn dda trwy weithdrefnau monitro a chraffu effeithiol, ac yn gwrando’n ofalus ar lais a barn y darparwyr yn ogystal. O ganlyniad, maent yn cynnig arlwy effeithiol o hyfforddiant sy’n cael ei werthfawrogi gan diwtoriaid ac sy’n arwain at safonau addysgu uchel a llwyddiant ymysg y dysgwyr.

Yn dilyn cyfnod o weithio yn gyfan gwbl trwy ddulliau dysgu o bell, mae’r darparwyr wedi ailafael yn eu cyfundrefnau ar gyfer gweithio wyneb yn wyneb. Mae’r gweithgareddau hyn yn parhau i gynyddu’n  flynyddol, ond mae’r cynnig digidol yn parhau’n  boblogaidd iawn, hefyd. Mae gan y Ganolfan afael gref ar yr wybodaeth hon ac yn teilwra hyfforddiant yn bwrpasol.

Mae adnodd canolog y Ganolfan ar gyfer dysgu proffesiynol, sef y platfform digidol ‘Academi’, yn tyfu ac yn esblygu’n  barhaus. Mae’n hygyrch i bob aelod o staff yn y sector ac yn gyrchfan hanfodol wrth ystyried anghenion datblygiad proffesiynol parhaus tiwtoriaid. Disgwylir i bob tiwtor fynychu o leiaf un hyfforddiant yn flynyddol, gyda’r system yn olrhain cynnydd tiwtoriaid ar ddashfwrdd rhyngweithiol. Mae’r Ganolfan yn adolygu ac yn ychwanegu at yr adnoddau yn rheolaidd gan sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol. Mae rhaglen hyfforddiant flynyddol yn denu miloedd o ymrestriadau, ac mae tiwtoriaid yn elwa o’r rhychwant eang o adnoddau sydd ar gael iddynt.

Mae tiwtoriaid yn dilyn cwrs Dechrau Dysgu sy’n rhoi sail gadarn iddynt ddechrau gyrfa. Mae’r cymhwyster dysgu cenedlaethol, sydd ar lefel 4, a llwybr dilyniant ers yr arolygiad diwethaf, sef unedau ychwanegol yn yr Academi, sy’n darparu llwybr datblygiad proffesiynol parhaus i diwtoriaid.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos sy’n cefnogi dysgu proffesiynol pob ymarferydd ar draws y sector. Enghraifft nodedig o hyn yw’r sesiynau bachog ar ramadeg sy’n cael eu cynnal yn wythnosol ac sydd ar gael yn rhithiol er mwyn i

diwtoriaid gryfhau eu dealltwriaeth nhw o reolau gramadeg a hwyluso eu rôl fel addysgwyr hyddysg. Mae hyn yn helpu i greu ymdeimlad o un tîm cenedlaethol sy’n gweithio’n gydlynus er budd dysgwyr y Gymraeg.

Mae gan y Ganolfan ymwybyddiaeth gadarn o’r safonau ymysg yr holl ddarparwyr, sy’n ei galluogi i glustnodi rhagoriaethau all ddylanwadu’n bositif drwy’r sector. Trwy weithio’n rhagweithiol gyda chytundebau a grantiau ariannol, maent yn lledaenu arferion da mewn ffyrdd effeithlon a llwyddiannus. Enghraifft arbennig o hyn yw'r ffordd mae arweinwyr yn manteisio ar arbenigedd tiwtoriaid Nant Gwrtheyrn i gyflwyno rhaglen hyfforddiant dysgu proffesiynol ar ddulliau trochi effeithiol i diwtoriaid ar hyd a lled Cymru.

Yn ogystal â lledaenu arferion da o fewn y sector, mae’r Ganolfan hefyd yn ymgymryd ag ymchwil gyfoes â rhwydweithiau rhyngwladol yn effeithiol i sicrhau eu bod yn defnyddio’r wybodaeth ddiweddaraf er mwyn rhannu arferion dysgu iaith effeithiol.

Yn dilyn canlyniadau ymchwil, mae staff wedi creu sgriptiau newydd ar gyfer y rhaglen Robin Radio, gan gynnwys geirfa gyffredin, sydd yn ôl yr ymchwil yn anodd i ddysgwyr ei chofio, er mwyn i ddysgwyr ei chlywed mewn cyd-destun yn rheolaidd ac, o ganlyniad, ei chaffael yn llwyddiannus. Mae’r Ganolfan hefyd wedi rhannu ei harbenigedd a dylanwadu ar y maes yn rhyngwladol gan gynorthwyo gwledydd eraill i greu cyrsiau ‘blasu’ i gefnogi hybu ieithoedd yn eu gwledydd nhw. Mae’r gweithredoedd hyn ynghyd ag ymrwymiad y tiwtoriaid i ymgymryd â’r hyfforddiant yn priodi â gweledigaeth y Ganolfan i godi proffil y sector a chreu llwybr gyrfa atyniadol, i ddatblygu gweithlu cymwysedig a phwrpasol, ac i gynnal perfformiad aruchel.

Mae’r Ganolfan yn mesur effeithiolrwydd hyfforddiant yn rheolaidd gan adolygu cyflawniad y darparwyr, trwy waith arsylwi, dadansoddi ymateb y dysgwyr ac ymateb y gweithlu. Mae hefyd yn olrhain presenoldeb a chyfraddau cwblhau a dilyniant pob dysgwr, ac yn cysylltu hynny yn ôl i diwtoriaid a chyrsiau unigol.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad canolog a chenedlaethol y Ganolfan yn drylwyr ac effeithiol. Mae staff y Ganolfan yn ymgymryd â’r broses yn bositif er mwyn adnabod eu cryfderau a’r agweddau y mae angen eu datblygu. Trwy osod camau gweithredu clir a mesuradwy yn ogystal â chyfleoedd addas ar gyfer hyfforddiant, fel cyrsiau arweinyddiaeth a rheoli, mae arweinwyr yn sicrhau bod y gweithlu yn cynyddu ei wybodaeth, ei ddealltwriaeth a’i fedrau proffesiynol i gefnogi gwaith y Ganolfan. Mae amryw brosesau yn bodoli i reoli perfformiad y darparwyr, gyda’r Ganolfan yn gwrando ar lais y tiwtoriaid a’r dysgwyr yn rheolaidd. Maent yn cyfarfod yn aml i drafod hunanwerthuso’r darparwyr ac yn ymateb yn rhagweithiol i anghenion y gweithlu. Mae’r Ganolfan yn darparu hyfforddiant i arsylwyr er mwyn cysoni’r broses o sicrhau ansawdd y dysgu a’r addysgu ar draws y darparwyr. Mae staff o’r Ganolfan yn arsylwi gwersi ar draws pob darparwr yn rheolaidd, sy’n eu galluogi i ddeall cryfderau a meysydd datblygu’r ddarpariaeth yn genedlaethol sydd yn ei dro yn cyfrannu at gynnig dysgu proffesiynol bwriadus a strategol.

## Defnyddio adnoddau

Mae’r Ganolfan yn rheoli ei chyllid yn ofalus ac yn dyrannu cyfalaf i ddarparwyr yn unol â blaenoriaethau clir a chynllunio manwl. Er nad yw’r grant craidd wedi cynyddu

ers 2016, mae’r Ganolfan yn parhau i sicrhau darpariaeth o safon uchel a chanlyniadau llwyddiannus o ran cyrhaeddiad dysgwyr ar bob lefel.

Yn ogystal, mae’r Ganolfan yn gyfrifol am reoli a dyrannu grantiau ychwanegol ar gyfer hybu dysgu Cymraeg i grwpiau penodol o bobl, er enghraifft pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed a’r gweithlu iechyd a gofal. Gwnânt hyn drwy brosesau tendro gofalus gyda darparwyr Dysgu Cymraeg a phartneriaid eraill. Rheola’r Ganolfan y gwariant yn ddarbodus gan fonitro a gwerthuso effaith y gwaith yn unol ag amodau’r grantiau.

Mae arweinwyr y Ganolfan yn ymwybodol o gostau darparwyr, rhaglenni a gweithgareddau hyfforddi presennol ac yn eu hadolygu’n rheolaidd. Maent yn herio eu hunain ac arweinwyr darpariaeth yn gyson i sicrhau gwerth am arian ac i fanteisio ar bob cyfle posibl i wneud y mwyaf o bob ceiniog. Yn dilyn adolygiad trylwyr yn ddiweddar, ac i ymateb i bryderon ymarferwyr, penderfynwyd codi gwerth y dysgwr o fewn y fformiwla ariannu i gydnabod costau cynyddol rhedeg darpariaethau. Mae’r nod o sicrhau gwerth am arian yn cael ei gydbwyso gan y dyhead i fod mor gynhwysol â phosibl ac i beidio ag eithrio unrhyw un oherwydd cost y cyrsiau. Defnyddia arweinwyr eu gwybodaeth drylwyr am eu cyllideb er mwyn adnabod yn gyflym a gwneud y mwyaf o unrhyw achos o danwario neu incwm ychwanegol, fel gwerthiant uwch na’r disgwyl o werslyfrau. Er enghraifft, i ymateb i amrywiadau yn y gyllideb, bu’n bosibl ailagor cronfa grant Cymraeg yn y Cartref ar sail llwyddiant y rownd gyntaf a’r galw cynyddol i gefnogi rhieni i ddysgu Cymraeg.

Mae arweinwyr yn ystyried anghenion tymor byr dysgwyr ochr yn ochr ag anghenion strategol, tymor hir y Ganolfan. Maent yn gweithredu’n rhagweithiol wrth adnabod cyfleoedd i gynnig hyfforddiant ac arbenigedd mewn meysydd penodol. Er enghraifft, paratôdd arweinwyr astudiaeth ac achos busnes ar gyfer cynyddu medrau ieithyddol y gweithlu addysg a’i gyflwyno i’r llywodraeth. O ganlyniad, mae’r Ganolfan nawr yn datblygu’r ddarpariaeth ymhellach.

Mae’r Ganolfan yn buddsoddi’n synhwyrol mewn ymgyrchoedd hysbysebu manwl yn dilyn ymchwil trylwyr, fel daear-dargedu ardaloedd penodol o Gymru. Canlyniad eu strategaeth marchnata yw bod 500,000 o bobl wedi ymweld â gwefan y Ganolfan mewn blwyddyn. Enghraifft nodedig o hyn yw'r defnydd o blatfform cyfrwng cymdeithasol sy’n boblogaidd gyda phobl 16 i 25 oed i’w denu at y wefan. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mawr mewn ymweliadau at y wefan a chynnydd yn nifer y bobl ifanc sy’n ymrestru ar gyrsiau.

Mae swyddogion yn cefnogi darparwyr i ystyried eu cyllid yn ofalus ac i ddefnyddio lleoliadau yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn pwyso a mesur costau llogi adeiladau gyda phwyslais priodol ar gynnal dosbarthiadau mewn cymunedau ar draws Cymru. Mae eu trosolwg cenedlaethol yn eu galluogi i gynorthwyo darparwyr â syniadau am ddefnyddio lleoliadau mewn ffyrdd mwy cost effeithiol. Oherwydd craffu trylwyr a gofalus y Ganolfan, mae darparwyr yn gyson yn cadw at eu cyllidebau. Yn yr achosion prin pan fydd gorwario neu danwario yn digwydd, mae’r Ganolfan yn arwain trafodaethau â’r darparwyr hynny am y rhesymau a chynnig datrysiadau posibl.

Mae’r Ganolfan yn elwa o’r berthynas agos â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae gweledigaeth ac ymroddiad uwch arweinwyr y brifysgol tuag at waith a chenhadaeth y Ganolfan yn ei chefnogi i weithredu a thyfu yn llwyddiannus. Yn ymarferol, mae’n rhan o weithdrefnau gwasanaethau corfforaethol ac yn mabwysiadu eu polisïau o ran archwilio a chaffael. Mae hefyd yn derbyn cefnogaeth Technoleg Gwybodaeth ac Adnoddau Dynol ar gyfer ei staff sydd yn drefniant hwylus a defnyddiol i’r Ganolfan.

Mae’r Bwrdd Cwmni a’r Bwrdd Ymgynghorol yn chwarae rôl bwysig wrth graffu ar gyllideb y Ganolfan yn dymhorol, ymysg cyfrifoldebau craffu ehangach. Maent yn herio ac yn cynnig cyngor wrth drafod a dadansoddi'r cynllun gweithredu blynyddol sy'n seiliedig ar y cynllun strategol, gan ystyried yr adnoddau sydd angen eu dyrannu er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Ganolfan. Mae prosesau ariannol y Ganolfan yn gadarn ac mae hynny’n cael ei gydnabod yn flynyddol gan archwilwyr allanol. Yn ychwanegol at waith craffu’r Byrddau Cwmni ac Ymgynghorol, mae’r Ganolfan yn adrodd yn dymhorol i’r llywodraeth gan ddarparu adroddiadau manwl ar ei gwaith a’i gwariant.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr yn:

- dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr ac ystyried barn tiwtoriaid a staff drwy eu hymatebion holiadur
- craffu ar ddeilliannau arolygu darparwyr Dysgu Cymraeg

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr yn:

- cyfarfod â phrif weithredwr, cyfarwyddwyr, tîm rheoli'r Ganolfan, cynrychiolwyr, corff rheoli/corff llywodraethol, ac uwch arweinwyr eraill
- cyfarfod â darparwyr Dysgu Cymraeg a phartneriaid allweddol
- edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- ystyried cynlluniau gwella'r darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, cofnodion o gyfarfodydd perthnasol a chyfarfodydd y corff rheoli/llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- gwahodd y darparwr i sicrhau bod yr adroddiad yn ffeithiol gywir

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/07/2024